

# Neuadd y Llyffantod!

## I'w wneud

- Astell o bren meddal heb ei drin (130cm o hyd, 15cm o led, 2.5cm o ddyfnder)
- Llif
- Morthwyl neu dyrnsgriw
- Hoelion neu sgriwiau galfanedig




Dydy llyffantod a brogaod ddim yn westeion anodd! Yn sicr does dim angen gwres canolog arnyn nhw. Rhowch eich bocys llyffantod mewn lle llai, cysgodol, a gwranddo am grawcian bodlon!



## DIOGELWCH



GALL OFFER FOD YN BERYGLUS OS NA CHÂNT EU DEFNYDDIO 'N GYWIR A GOFALUS! MAE 'N WELL GWNEUD Y PROSIECT HWN GYDAG OEDOLYN SY 'N GWYBOD SUT I DDEFNYDDIO OFFER AC SY 'N GALLU EGLURO 'R FFORDD ORAU I WNEUD PETHAU.






### DIAGRAM TORRI'R BOCS LLYFFANTOD

Gwell gofyn i oedolyn sy'n gwybod sut i ddefnyddio llif dorri'r darnau o bren.



**1** Hoelio neu sgriwio'r to i flaen a chefn y bocs llyffantod.

**2** Hoelio neu sgriwio ochrau'r to i'w lle.



**3** Yn olaf, hoelio neu sgriwio'r darnau ochr i'w lle.



**Dŵr wrth law**  
Er eu bod nhw'n hoffi dŵr, does dim angen pwll enfawr ar frogaod a llyffantod. Rhowch hen deilsen do yng ngwaelod hanner y bocs i'w gadw'n llaith ac oer yn yr haf, a cherrig neu ddail i roi cysgod ychwanegol. A rhowch soser potyn blodau ar y llawr wrth y bocs a'i chadw'n llawn o ddŵr.

Bydd llyffantod a brogaod wrth eu bodd â'ch tŷ bach pren, ond gallwch wneud lloches da iddynt mewn dau eiliad trwy droi potyn blodau a'i ben i lawr! Rhowch y potyn mewn lle llaith, cysgodol a rhoi ei ymyl ar garreg fechan, fel bod lle i'r llyffant wthio'i ffordd i mewn. Chwiliwch am gorcyn a fydd yn ffitio'r twll yn y potyn i gadw'ch ymwelydd yn ddiogel os bydd storm o lawr! Fel arall, byddai potyn sydd wedi torri hefyd yn berffaith – dim ond bod lle i froga neu lyffant fynd i mewn ac allan!

